Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# LLADD DA BYW GARTREF: CANLLAW AR Y GYFRAITH YNG NGHYMRU

Diwygiad 4 Mawrth 2011

**Os ydych chi angen yr wybodaeth hon ar fformat arall – megis tâp sain, print bras, Braille – cysylltwch â ni drwy ffonio 020 7276 8369.**

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa darged:** | Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i:<br>• Geidwaid anifeiliaid sy'n lladd da byw[1] ar y fferm[2] i'w bwyta ganddynt hwy neu gan aelodau o'r teulu sy'n byw yno.<br>• Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am orfodi Rheoliadau sy'n ymwneud â Lles Anifeiliaid, Hylendid Bwyd ac Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE) ar ffermydd. |
| **Cwmpas rhanbarthol:** | Cymru yn unig. Mae canllawiau cyfatebol yn berthnasol i rannau eraill o'r DU. |
| **Diben:** | Rhoi gwybodaeth am y gyfraith sy'n cwmpasu lladd da byw gartref. |
| **Statws cyfreithiol:** | Nod y canllawiau hyn yw rhoi esboniad clir o ofynion cyfreithiol yr UE a deddfwriaeth genedlaethol mewn perthynas â TSE a hylendid cig. |
| **Camau gweithredu hanfodol er mwyn cydymffurfio â'r rheoliad(au):** | Rhaid i anifeiliaid gael eu lladd heb greulondeb.<br>Rhaid i'r deunydd risg penodedig gael ei dynnu, ei staenio a'i waredu fel sgil-gynnyrch anifeiliaid categori 1.<br>Rhaid i wartheg y mae angen eu profi am BSE gael prawf negyddol. |
| | |

[1] Ni fwriedir i'r Canllawiau hyn gwmpasu pob rhywogaeth o dda byw ond mae'n cwmpasu'r rhywogaethau hynny yr ydym yn derbyn y nifer fwyaf o ymholiadau yn eu cylch. Mae'n berthnasol iawn i wartheg, defaid a geifr lle mae rheolaethau TSE yn gymwys.

[2] At ddibenion y Canllawiau hyn, mae 'fferm' yn golygu unrhyw safle lle y caiff da byw eu cadw.

**HANES DIWYGIO**

Mae'r canllawiau hyn yn dilyn Cod Ymarfer y Llywodraeth ar Ganllawiau. Os ydych yn credu bod y canllawiau hyn yn torri'r Cod am unrhyw reswm, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r rhif ar y dudalen flaen. Os oes gennych unrhyw sylwadau am y canllawiau hyn, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r rhif ar y dudalen flaen.

| Rhif y diwygiad | Dyddiad y diwygiad | Diben y diwygiad |
|---|---|---|
| 1 | Rhagfyr 2003 | Adlewyrchu'r newid yn Rheoliad TSE yr UE |
| 2 | Mawrth 2006 | Adlewyrchu Rheoliadau Hylendid Bwyd yr UE |
| 3 | Mehefin 2009 | Adlewyrchu dehongliad y Comisiwn o Reoliad TSE yr UE. |
| 4 | Mawrth 2011 | Adlewyrchu trefniadau amgen ar gyfer Profion BSE |

# CYNNWYS


CYFLWYNIAD ..... 6

CYNULLEIDFA DARGED ..... 6

DIBEN Y CANLLAWIAU ..... 6

STATWS CYFREITHIOL Y CANLLAWIAU ..... 6

RHEOLIADAU HYLENDID BWYD ..... 7

RHEOLIADAU TSE ..... 8

RHEOLIADAU LLES ANIFEILIAID ..... 9

ENGHREIFFTIAU ..... 10

ATODIAD A ..... 13

ATODIAD B ..... 13

ATODIAD C ..... 19

## CYFLWYNIAD

1. "Lladd Gartref" yw lladd anifail da byw gan ei berchennog ar ei safle ei hun i'w fwyta ganddo neu gan aelodau o'r teulu agos sy'n byw yno. Ni all lladd gartref ddigwydd mewn lladd-dy cymeradwy.

2. Mae gwahaniaeth rhwng "lladd gartref" a "lladd yn breifat" sef pan fydd perchennog yr anifail yn ei anfon i ladd-dy cymeradwy i'w ladd ac mae'r carcas wedi'i drin yn cael ei ddychwelyd i'r perchennog.

3. Dylid nodi bod lladd gartref yn debygol o ddwyn mwy o risg i iechyd pobl na lladd mewn safle cymeradwy.

## CYNULLEIDFA DARGED

4. Perchenogion da byw sy'n ystyried lladd anifeiliaid ar y fferm i'w bwyta ganddynt hwy neu gan aelodau o'r teulu agos sy'n byw yno.

5. Awdurdodau Lleol[3] sy'n gyfrifol am orfodi Rheoliadau Hylendid Bwyd a TSE domestig ar ffermydd.

## DIBEN Y CANLLAWIAU

6. Rhoi cyngor ar yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn caniatáu lladd da byw gartref yn gyfreithlon.

7. Lleihau unrhyw risgiau posibl i iechyd pobl.

## STATWS CYFREITHIOL Y CANLLAWIAU

8. Paratowyd y canllawiau hyn i roi esboniad clir o ofynion cyfreithiol Rheoliad Hylendid Bwyd (CE) Rhif 853/2004 yr UE [4], Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (CE) Rhif. 999/2001 yr UE (fel y'u diwygiwyd)[5], Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd)[6] a Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2008[7]. Ni

---

3 I ddod o hyd i'ch Awdurdod Lleol ewch i: www.food.gov.uk/enforcement/enforceessential/yourarea/

4 OJ L 139, 30.04.2004

5 OJ L 147, 31.05.2001

6 OS 2006/31(Cy.5)' a ddiwygiwyd gan OS 2007/373(Cy.33) ac OS 2010/893(Cy.92)

7 OS 2010/3154(Cy.282)

allant drafod pob sefyllfa ac efallai y bydd angen i chi edrych ar y ddeddfwriaeth berthnasol i weld sut mae'n berthnasol i'ch amgylchiadau chi. Bydd dilyn y canllawiau yn eich helpu i gydymffurfio â'r gyfraith. Gall busnesau sydd ag ymholiadau penodol ofyn am gyngor gan eu hawdurdod gorfodi lleol, sef yr adran Safonau Masnachu neu adran Iechyd yr Amgylchedd yn eu hawdurdod lleol fel arfer.

## RHEOLIADAU HYLENDID BWYD

9. Mae Rheoliad Hylendid Bwyd 853/2004 yn nodi bod yn rhaid i gig sy'n cael ei werthu i'w fwyta gan bobl ddod o anifeiliaid sy'n cael eu lladd mewn lladd-dy cymeradwy fel arfer.

10. Mae p'un a yw anifail wedi cael ei ladd yn gyfreithlon y tu allan i safle cymeradwy yn dibynnu ar b'un a fwriedir gwerthu'r carcas neu'r cig o'r carcas neu 'ei roi ar y farchnad'. Ystyr "rhoi cig ar y farchnad" yw cadw bwyd neu borthiant i'w werthu, gan gynnwys ei gynnig i'w werthu neu unrhyw fath arall o drosglwyddiad, p'un a yw am ddim ai peidio, a gwerthu, dosbarthu a mathau eraill o drosglwyddiadau eu hunain (Rheoliad (CE) Rhif 178/2002, Erth. 3). Er enghraifft, mae cyflenwi carcas yn ôl i'r perchennog gan ladd-dy neu laddwr cymeradwy yn gyfystyr â rhoi cig ar y farchnad o dan y diffiniad hwn oherwydd:

    a. Cyflenwir bwyd wrth gynnal y busnes;

    b. Cyflenwir cig, am fod y cynnyrch sy'n cael ei ddychwelyd ar ôl lladd (h.y. y carcas wedi'i drin neu'r cig) yn sylfaenol wahanol i'r hyn a ddosbarthwyd i'r lladd-dy neu'r lladdwr (h.y. yr anifail byw).

11. Felly er mwyn sicrhau bod lladd gartref yn gyfreithlon ac wedi'i eithrio o'r Rheoliadau Hylendid, rhaid i'r perchennog ond cyflenwi ei deulu agos sy'n rhannu'r cartref. Os bydd y perchennog yn cyflenwi eraill mae hyn yn anghyfreithlon o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) a gall swyddogion awdurdodau lleol ardystio nad yw'r cig wedi cael ei gynhyrchu, ei brosesu na'i ddosbarthu yn unol â'r Rheoliadau hynny. Byddai cig o'r fath yn cael ei drin wedyn fel cig nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd o dan adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Yna byddai modd cael gorchymyn i'w gondemnio gan Lys Ynadon. Wrth ymgymryd â'r rôl orfodi hon, efallai y bydd angen i awdurdodau lleol gydgysylltu â'r Asiantaeth Safonau Bwyd o bryd i'w gilydd. Ceir rhestr o fanylion cyswllt yn Atodiad A.

## RHEOLIADAU TSE

12. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd o'r farn bod Rheoliadau TSE yr UE yn berthnasol lle bynnag y caiff anifail a allai gael TSE ei ladd (**gan gynnwys lladd gartref**). Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ddeunydd risg penodedig (SRM) gael ei dynnu, ei staenio a'i waredu ar ôl lladd gwartheg[8], defaid neu eifr yn unol â Rheoliad (CE) Rhif. 999/2001, a Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009 yr UE ynglŷn â sgil-gynhyrchion anifeiliaid. SRM yw'r rhannau hynny o'r anifail sy'n debygol o gynnwys haint BSE mewn anifail wedi'i heintio. Ceir rhestr lawn o SRM yn Atodiad C. Mae rheolaethau SRM yn gymwys i wartheg, buail, byfflos, defaid a geifr.

13. Yn ogystal, mae'n rhaid i wartheg dros 48[9] mis oed adeg eu lladd gael prawf negyddol am BSE cyn y gellir bwyta'r cig. Mae profion yn golygu cymryd sampl o fôn yr ymennydd a'i hanfon i labordy cymeradwy. Dylid ymgymryd â'r dasg hon fel a ganlyn:

    a. Drwy anfon y pen i un o Labordai Rhanbarthol yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol (gweler Atodiad A) neu drwy drefnu i unigolyn wedi'i hyfforddi'n addas gymryd sampl a'i hanfon i un o Labordai Rhanbarthol yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol neu i labordy cymeradwy preifat. Byddai tâl yn cael ei godi am y gwasanaethau hyn;

    b. Drwy anfon y pen i safle samplu BSE cymeradwy ar gyfer gwartheg trig, lle bydd gweithredwr y safle yn casglu sampl a'i hanfon i labordy cymeradwy. Dylai cerdyn symud o'r pasbort (gyda label yn dwyn cod bar y daliad wedi'i hatodi i'r cerdyn) gael ei anfon gyda'r carcas a rhaid i'r geiriau 'home slaughter' gael eu nodi'n glir arno. Mae rhagor o wybodaeth am yr holl safleoedd samplu BSE cymeradwy ar gael oddi wrth Swyddfeydd Iechyd Anifeiliaid lleol ac ar wefan Iechyd Anifeiliaid:

        http://www.defra.gov.uk/animalhealth/managing-disease/animalbyproducts/approvedsites.html

---

[8] At ddibenion rheolaethau TSE, mae “gwartheg” yn cynnwys buail a byfflos.

[9] Rhaid i wartheg a fewnforiwyd ac na anwyd yn Awstria, Cyprus, Denmarc, Gwlad Belg, Gwlad Groeg, Iwerddon, Lwcsembwrg, Portiwgal, Sbaen, Sweden, yr Almaen, yr Eidal, y Ffindir, yr Iseldiroedd, neu’r Deyrnas Unedig gael eu profi os ydynt dros 30 mis oed, neu dros 24 mis oed os ydynt yn cael eu lladd ar frys.

14. Pan gaiff y sampl ei chyflenwi ar gyfer prawf BSE, dylai'r geiriau 'Home Slaughter' gael eu nodi'n glir mewn inc annileadwy ar bot y sampl. Dylai'r geiriau 'Home Slaughter' gael eu nodi'n glir fel y rheswm dros farwolaeth ar y ffurflen gyflwyno a gyflwynir ar y cyd â'r sampl.

15. Dim ond os yw'r prawf BSE yn negyddol y dylai cig o'r anifail gael ei fwyta. Os yw'r prawf yn bositif, rhaid i'r carcas a phob rhan o'r corff gael eu gwaredu fel sgîl-gynnyrch anifail categori 1.

16. Mae'r Rheoliadau domestig yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad TSE yr UE yng Nghymru. Fel pob un o Reoliadau'r UE, mae Rheoliad TSE yr UE yn "uniongyrchol gymwys" ymhob Aelod-wladwriaeth (h.y. daw'n gyfraith yn awtomatig yn y Gwladwriaethau hynny o'r dyddiad y mae'n gymwys).

17. Mae'r Rheoliadau TSE domestig yn caniatáu i awdurdodau lleol benodi arolygwyr i orfodi'r ddeddfwriaeth ac yn darparu pwerau i arolygwyr fynd ar safleoedd, atafael unrhyw garcas neu ran o garcas a'i waredu fel y bo angen. Fel arall, gall arolygydd gyflwyno hysbysiad i'r perchennog yn ei gwneud yn ofynnol iddo ei waredu.

## RHEOLIADAU LLES ANIFEILIAID

18. Mae deddfwriaeth hefyd yn diogelu lles da byw[10] (anifeiliaid cig coch a dofednod) yn ystod y broses ladd. Pa bryd bynnag y caiff da byw eu lladd (boed hynny drwy waedu ar ôl eu stynio neu drwy farw ar unwaith), rhaid gwneud hynny yn unol â Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cigydda neu Ladd) 1995 (fel y'u diwygiwyd), a elwir yn "WASK". Caiff y Rheoliadau hyn eu gorfodi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd mewn lladd-dai cymeradwy. Y tu allan i ladd-dai cymeradwy (**h.y. lladd gartref**) caiff y Rheoliadau eu gorfodi gan Iechyd Anifeiliaid ac mae'r awdurdod lleol yn rhan o hyn yn ôl yr angen.

19. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn drosedd i beri neu ganiatáu unrhyw gyffro, poen neu ddioddefaint i unrhyw anifail neu aderyn yn ystod y broses ladd lle y gellid osgoi hynny. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n cyflawni gweithrediadau o'r fath feddu ar yr wybodaeth a'r

[10] Am ragor o wybodaeth ewch i: www.defra.gov.uk/foodfarm/farmanimal/welfare/slaughter/index.htm

sgiliau angenrheidiol i gyflawni'r tasgau mewn ffordd effeithlon heb greulondeb. Dim ond y dulliau o stynio a lladd a nodir yn y Rheoliadau y gellir eu defnyddio. Fodd bynnag pan gaiff aderyn, cwningen, mochyn, dafad neu afr ei ladd gan ei berchennog i'w fwyta'n breifat ganddo, ceir eithriadau penodol o ddarpariaethau'r Rheoliadau o ran y broses ladd. Nid yw'r eithriadau hyn yn berthnasol i wartheg.

20. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o bobl sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r broses ladd gael eu trwyddedu, er bod sawl eithriad i'r gofyniad hwn. Ymhlith y rhain mae:

c. lladd anifail neu aderyn gan y perchennog i'w fwyta'n breifat ganddo;

d. lladd unrhyw anifail ac eithrio at ddiben masnachol;

c defnyddio bwled rydd i ladd anifail mewn cae;

d. lladd aderyn drwy ddadleoli'r gwddf ar y safle lle cafodd yr aderyn ei fagu. Ceir rhagor o wybodaeth am les anifeiliaid fferm yn: http://ww2.defra.gov.uk/food-farm/animals/welfare/

21. Dim ond mewn lladd-dai cymeradwy y caniateir lladd yn grefyddol.

22. Mae'r Gymdeithas Lladd heb Boen wedi cyhoeddi taflen o'r enw *On-farm slaughter of Livestock for Consumption* sy'n rhoi manylion am ddeddfwriaeth ac arfer gorau i ffermwyr ar ladd heb greulondeb ar y fferm. Mae'r daflen ar gael yn www.hsa.org.uk. Rhoddir pwynt cyswllt hefyd yn Atodiad A.

## ENGHREIFFTIAU

23. Dengys yr enghreifftiau canlynol sut y caiff y gofynion cyfreithiol eu cymhwyso'n ymarferol.

*Y ffermwr yn lladd da byw gartref i'w bwyta ganddo neu gan ei deulu agos sy'n byw yn yr un cartref*

24. Mae hyn yn **gyfreithlon**. Gan nad yw'r ffermwr, o dan yr amgylchiadau hyn, yn gweithredu fel gweithredwr busnes bwyd, nid yw Rheoliadau Hylendid Bwyd yr UE yn gymwys. Fodd bynnag, nid yw lladd gartref yn rhan o gwmpas WASK na'r rheoliadau sy'n ymwneud â TSE a sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Felly rhaid i anifeiliaid gael eu lladd heb boen, rhaid i SRM gael ei dynnu, ei staenio a'i waredu fel sgîl-gynnyrch anifeiliaid categori 1. Rhaid i wartheg y mae angen eu profi gael prawf negyddol am BSE cyn iddynt gael eu bwyta.

*Y ffermwr yn lladd da byw gartref i'w bwyta gan westeion ei fusnes gwely a brecwast*

25. Mae hyn yn **anghyfreithlon**. Byddai'r ffermwr yn cyflenwi'r cig fel rhan o'i fusnes h.y. mae'n lladd ei anifail gyda'r bwriad o'i roi i westeion ei fusnes gwely a brecwast. Byddai hyn yn groes i Reoliad Hylendid Bwyd (CE) Rhif 853/2004. Rhaid i gig a roddir i westeion gwely a brecwast ddod o anifeiliaid a laddwyd mewn lladd-dy cymeradwy.

*Lladdwr teithiol yn lladd da byw ar y fferm*

26. Mae'n **anghyfreithlon** i ffermwr ddefnyddio lladdwr teithiol i ladd ei anifail a'i drin. Y rheswm dros hyn yw y byddai'r lladdwr yn cyflenwi nwyddau (h.y. carcas wedi'i drin) wrth ddarparu ei wasanaeth.

*Lladd da byw ar safle rhywun arall nas cymeradwywyd*

27. Mae hyn yn **anghyfreithlon**. Mae safleoedd nas cymeradwywyd yn cynnwys unrhyw leoliad a ddefnyddiwyd i ladd anifeiliaid ar wahân i ladd-dy cymeradwy (e.e. cae, ysgubor, warws, cerbyd, lladd-dy nas cymeradwywyd). Byddai gweithredwr y safle nas cymeradwywyd yn cyflenwi nwyddau (h.y. cig) yn ôl i'r ffermwr wrth ddarparu ei wasanaeth. Byddai felly yn rhoi'r cig ar y farchnad. Byddai'r broses o ladd yr anifail yn drosedd, fel y byddai unrhyw achos o werthu neu gyflenwi'r cig wedi hynny.

*Lladd da byw yn breifat mewn lladd-dy cymeradwy*

28. Mae hyn yn **gyfreithlon**.

29. Am ragor o wybodaeth, gweler y manylion cyswllt yn Atodiad A. Ceir adran Holi ac Ateb yn Atodiad B hefyd.

# CYSYLLTIADAU

## Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

**Lladd gartref, Lladd yn breifat, Lladd brys a materion cysylltiedig**

Hilary Neathey
Llawr 11
Tŷ Southgate
Wood St
Caerdydd
CF10 1EW
Ff 029 20678911
E food.policy.wales@foodstandards.gsi.gov.uk

**Grŵp Gweithrediadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd**

Desg Gymorth y Gwasanaethau Milfeddygol Gweithredol
Ffôn: 01904 455 774

## Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Adran Materion Gwledig

**Gwaredu Sgîl-gynhyrchion Anifeiliaid (gan gynnwys deunydd risg penodedig)**

Amy Byrne
Ff 01267 245007
E amy.byrne@wales.gsi.gov.uk

**Materion yn ymwneud â Lles Anifeiliaid**

Gareth Jones-Beili
Ff 029 20823059
E gareth.jones-beili@wales.gsi.gov.uk

**Iechyd Anifeiliaid a phrofion BSE**

Chris Hale
Ff 029 20825996
E Christopher.hale@wales.gsi.gov.uk

## Swyddfeydd Iechyd Anifeiliaid yng Nghymru

### Caernarfon

Swyddfa Iechyd Anifeiliaid Caernarfon
Adeiladau'r Goron
Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
Cymru
LL55 1EP
E-bost: AH.Caernarfon@animalhealth.gsi.gov.uk
Ffôn: 01286 674144
Ffacs: 01286 674626

Caerfyrddin

Swyddfa Iechyd Anifeiliaid Caerfyrddin
Tŷ Merlin
Heol Glasdwr
Parc Pensarn
Caerfyrddin
SA31 2NJ
E-bost: AH.Carmarthen@animalhealth.gsi.gov.uk
Ffôn: 01267 245400
Ffacs: 01267 245500

**Labordai Preifat a Gymerdwywyd ar gyfer Profion BSE**
http://www.defra.gov.uk/vla/services/ser_bse_lab_approvals.htm

**Y Gymdeithas Lladd Heb Boen**
**'On-Farm Slaughter of Livestock for consumption'**

| | | |
|---|---|---|
| Charlie Mason | HSA<br>The Old School<br>Brewhouse Hill<br>Wheathampstead<br>Hertfordshire AL4 8AN | Ff 01582 831919<br>Ff 01582 831414<br>E charlie@hsa.org.uk<br>www.hsa.org.uk |

**Labordai rhanbarthol yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol (VLA)**

| | | |
|---|---|---|
| VLA Aberystwyth | Y Buarth<br>Aberystwyth<br>Ceredigion SY23 1ND | Ffôn: 01970 612374<br>Ffacs: 01970 612424 |
| VLA Bury St Edmunds | Rougham Hill<br>Bury St Edmunds<br>Suffolk, IP33 2RX | Ffôn: 01284 724499<br>Ffacs: 01284 724500 |
| VLA Caerfyrddin | Heol Ffynnon Job<br>Tre Ioan<br>Caerfyrddin, SA31 3EZ | Ffôn: 01267 235244<br>Ffacs: 01267 236549 |
| VLA Langford | Langford House<br>Langford<br>Bristol, BS40 5DX | Ffôn: 01934 852421<br>Ffacs: 01934 852981 |
| VLA Lasswade | Pentlands Science Park<br>Bush Loan<br>Penicuik, Midlothian, EH26 0PZ | Ffôn: 0131 445 6169<br>Ffacs: 0131 445 6166 |
| VLA Luddington | Luddington<br>Stratford-upon-Avon<br>Warwickshire, CV37 9SJ | Ffôn: 01789 750212<br>Ffacs: 01789 750281 |
| VLA Newcastle | Whitley Road<br>Longbenton<br>Newcastle upon Tyne, NE12 9SE | Ffôn: 0191 266 2292<br>Ffacs: 0191 266 3605 |
| VLA Penrith | Merrythought<br>Calthwaite<br>Penrith, CA11 9RR | Ffôn: 01768 885295<br>Ffacs: 01768 885314 |
| VLA Preston | Barton Hall<br>Garstang Road<br>Barton<br>Preston PR3 5HE | Ffôn: 01772 861611<br>Ffacs: 01772 862026 |
| VLA Shrewsbury | Kendal Road<br>Harlescott<br>Shrewsbury, SY1 4HD | Ffôn: 01743 467621<br>Ffacs: 01743 441060 |
| VLA Starcross | Staplake Mount<br>Starcross<br>Exeter,<br>Devon, EX6 8PE | Ffôn: 01626 891121<br>Ffacs: 01626 891766 |
| VLA Sutton Bonington | The Elms<br>College Road<br>Sutton Bonington<br>Loughborough<br>Leicestershire, LE12 5RB | Ffôn: 01509 672332<br>Ffacs: 01509 674805 |
| VLA Thirsk | West House<br>Station Road<br>Thirsk,<br>N. Yorkshire YO7 1PZ | Ffôn: 01845 522065<br>Ffacs: 01845 525224 |
| VLA Truro | Polwhele<br>Truro<br>Cornwall, TR4 9AD | Ffôn: 01872 272150<br>Ffacs: 01872 223443 |
| VLA Winchester | Itchen Abbas<br>Winchester,<br>Hampshire, SO21 1BX | Ffôn: 01962 779966<br>Ffacs:01962 779438 |

**ATODIAD B**

# LLADD GARTREF
# HOLI AC ATEB

**Ffermwyr/Ceidwaid**

***C1. Nid oes gennyf basbort gwartheg ar gyfer fy anifail. A allaf ei ladd gartref?***

Nid oes dim yn Rheoliadau Adnabod Gwartheg 2007 (fel y'u diwygiwyd) sy'n eich atal rhag lladd anifail heb basbort gwartheg gartref.

***C2. A allaf fwyta unrhyw gig o'm hanifeiliaid fy hun?***

Gallwch. Fodd bynnag, rhaid i chi sicrhau bod eich anifail yn cael ei ladd a'i baratoi'n gyfreithlon (gweler isod).

***C3. Sut y dylwn ladd fy anifeiliaid fy hun i'w bwyta gennyf?***

Gallwch ladd a pharatoi eich anifeiliaid i'w bwyta gennych mewn dwy ffordd gyfreithlon:

(a) mewn lladd-dy cymeradwy; neu

(b) *gennych chi* ar eich fferm.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynghori y byddai opsiwn (a) yn peri llai o risg i'ch iechyd nag opsiwn (b).

Byddai'n anghyfreithlon ymhob achos i gyflogi rhywun arall – gan gynnwys lladdwr – i ladd yr anifail ar eich eiddo. Byddai hefyd yn anghyfreithlon lladd yr anifail unrhyw le arall oddi ar y fferm, ac eithrio mewn lladd-dy cymeradwy.

***C4. Beth y dylwn ei wneud gyda'r deunydd gwastraff?***

Pe byddech yn dewis lladd yr anifail eich hun ar eich fferm, byddai unrhyw ran o'r carcas nad oeddech am ei bwyta yn cael ei dosbarthu'n sgîl-gynhyrchion anifeiliaid o dan Reoliad Sgil-Gynhyrchion Anifeiliaid (CE) Rhif 1069/2009 yr UE. Byddai'n rhaid i'r deunydd gwastraff gael ei waredu yn unol â'r Rheoliad, er enghraifft drwy drefnu i'r deunydd gael ei rendro neu ei losgi. Gall eich Swyddfa Iechyd Anifeiliaid leol neu adran safonau masnachu eich awdurdod lleol (neu, mewn rhai achosion, adran iechyd yr amgylchedd) roi gwybod i chi am yr opsiynau sydd ar gael i chi. Rhaid i SRM gael ei dynnu o wartheg, defaid a geifr ac ni ddylai gael ei fwyta. Rhaid i SRM gael ei staenio a'i waredu fel sgîl-gynnyrch anifeiliaid Categori 1.

***C5. A allaf werthu unrhyw gig o'm hanifeiliaid fy hun?***

Dim ond os cafodd yr anifail ei ladd mewn lladd-dy cymeradwy y byddai'n gyfreithlon i chi roi'r cig ar y farchnad. Er enghraifft, drwy ei gynnig i'w werthu yn eich siop fferm neu ei fwydo i westeion eich busnes gwely a brecwast.

***C6. A yw'r cyfyngiad ar gyflenwi cig a laddwyd gartref yn gymwys i bartneriaethau neu gyd-berchenogion?***

Ydy, oni bai bod y partner neu'r cydberchnogion yn aelodau o'r teulu sy'n byw yn y cartref. Mae'n annhebygol y byddai Llys yn penderfynu bod cyflenwi cig a laddwyd gartref yn gyfreithlon dim ond am ei fod wedi'i gyflenwi o fewn partneriaeth neu i gydberchennog.

***C7. Beth am reolaethau TSE ar gyfer moch, dofednod, anifeiliaid hela sy'n cael eu ffermio neu gwningod sy'n cael eu lladd gartref?***

Nid yw'r Rheoliadau TSE yn gymwys i foch, dofednod, anifeiliaid hela sy'n cael eu ffermio na chwningod.

***C8. Sut y gallaf drefnu i brawf BSE gael ei gynnal ar fy ngwartheg sy'n cael eu lladd gartref?***

Dylid ymgymryd â phrawf BSE fel a ganlyn:

a. Drwy anfon y pen i un o Labordai Rhanbarthol yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol (gweler Atodiad A) neu drwy drefnu i unigolyn wedi'i hyfforddi'n addas i gymryd sampl a'i hanfon i un o Labordai Rhanbarthol yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol neu i labordy cymeradwy preifat. Byddai tâl yn cael ei godi am y gwasanaethau hyn;

b. Drwy anfon y pen i safle samplu BSE cymeradwy ar gyfer gwartheg trig, lle y bydd gweithredwr y safle yn casglu sampl a'i hanfon i labordy cymeradwy. Dylai cerdyn symud o'r pasbort (gyda label yn dwyn cod bar y daliad wedi'i hatodi i'r cerdyn) gael ei anfon gyda'r carcas a rhaid i'r geiriau 'home slaughter' gael eu nodi'n glir arno. Mae rhagor o wybodaeth am yr holl safleoedd samplu BSE cymeradwy ar gael oddi wrth Swyddfeydd Iechyd Anifeiliaid lleol ac ar wefan Iechyd Anifeiliaid:

   www.defra.gov.uk/animalhealth/managing-disease/animalbyproducts/approvedsites.html

***C9. A allaf fwyta buwch a fagwyd gennyf gartref ac a anwyd cyn 1 Awst 1996?***

Na allwch. Mae deddfwriaeth TSE ddomestig yn gwahardd lladd gwartheg a anwyd neu a fagwyd yn y DU cyn 1 Awst 1996 i'w fwyta gan bobl. Mae hefyd yn drosedd anfon gwartheg a anwyd neu a fagwyd yn y DU cyn 1 Awst 1996 i ladd-dy cymeradwy.

### *C10. A all lladd-dy cymeradwy ladd anifail yn breifat ar fy rhan?*

Gall, os caiff yr anifail ei ladd mewn lladd-dy cymeradwy. Wrth ladd anifail yn breifat byddai'n rhaid dilyn yr union reolau a gweithdrefnau â lladd anifail yn gonfensiynol (masnachol).

### *C11. A allaf drefnu i anifail gael ei ladd yn breifat ac eithrio mewn lladd-dy cymeradwy?*

Na allwch. Ac eithrio gennych chi ar y fferm (gweler C3 uchod), buail (o dan amgylchiadau eithriadol) ac mewn achos brys ar ôl damwain lle na ellir symud yr anifail i'r lladd-dy am resymau lles. Fodd bynnag, mae eithriad sy'n caniatáu i chi ladd niferoedd bach o ddofednod neu lagomorffiaid a gafodd eu magu yno ar eich daliad eich hun a'u rhoi ar y farchnad i'w bwyta gan bobl, yn dibynnu ar rai amodau[11].

[11] Gweler *On farm slaughter of small quantities of poultry and lagomorphs* yn Rhan 1, Adran 7.8, paragraff B o Ganllawiau'r Diwydiant Cig, sydd ar gael drwy: www.food.gov.uk/foodindustry/meat/guidehygienemeat

## ATODIAD C

# DIFFINIAD O DDEUNYDD RISG PENODEDIG

| | |
|---|---|
| **Gwartheg** | **Pob oedran**<br>Y tonsilau, y coluddion, o'r dwodenwm i'r rhefr, a'r mesenteri.<br>**Dros 12 mis**<br>Y penglog heb gynnwys asgwrn yr ên ond yn cynnwys yr ymennydd a'r llygaid, a llinyn asgwrn y cefn.<br>**Dros 30 mis**<br>Asgwrn y cefn, heb gynnwys fertebrâu'r cynffon, cnapiau pigog a thraws fertebrâu'r gwddf, y thoracs a'r meingefn, gwrym canol y sacrwm ac esgyll y sacrwm, ond yn cynnwys ganglia'r nerfau dorsal. |
| **Defaid a geifr** | **Pob oedran**<br>Y ddueg a'r ilewm<br>**Dros 12 mis (neu mae'r dannedd blaen parhaol wedi dod trwodd)**<br>Y penglog yn cynnwys yr ymennydd a'r llygaid, y tonsilau a llinyn asgwrn y cefn. |

### GOFYNION STAENIO AR GYFER SRM

Mae staenio yn golygu trin y deunydd (drwy ei drochi, ei chwistrellu neu fel arall) â:

- toddiant pwysau/cyfaint 0.5% o'r lliwur Patent Blue V (E131, 1971 Mynegai Lliw Rhif 42051(a));

neu'r

- cyfryw liwur arall ag a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Rhaid defnyddio'r staen mewn ffordd sy'n sicrhau bod y lliw yn parhau'n weladwy;

- dros yr holl arwyneb toredig a'r rhan fwyaf o'r pen yn achos pen dafad neu afr, neu
- yn achos pob math arall o ddeunydd risg penodedig, dros arwyneb cyfan y deunydd.